
BWLETIN POLISI CYTÛN

CYTÛN POLICY BULLETIN



TACHWEDD/NOVEMBER

2013

YMWYBYDDIAETH O'R GYFRAITH NEWYDD AR ROI ORGANAU, A'R GEFNOGAETH IDDI'N TYFU

Mae arolwg blynyddol o fwy na 1,000 o bobl ledled Cymru wedi dangos cynnydd ar y cyfan o ran ymwybyddiaeth gyffredinol pobl o'r newid i'r system rhoi organau.

Mae'r un arolwg yn dangos cynnydd hefyd yn y gefnogaeth i'r ddeddfwriaeth sy'n cynnig system feddal o optio allan o roi organau, a fydd yn dod i rym yng Nghymru ar 1 Rhagfyr 2015.

Roedd arolwg a gynhaliwyd cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf yn gofyn i drigolion Cymru a oedden nhw o blaid, neu yn erbyn y newid i'r system rhoi organau, neu a oedd angen rhagor o wybodaeth arnyn nhw cyn gwneud penderfyniad. Gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghyfran yr ymatebwyr oedd o blaid, o 49% yn 2012 i 61% yn 2013. Cwmpodd y gyfran yn erbyn o 22% yn 2012 i 17% yn 2013, a chwmpodd cyfradd yr ymatebwyr a oedd angen rhagor o wybodaeth cyn penderfynu, o 21% yn 2012 i 16% yn 2013.

Roedd y prif ganfyddiadau'n cynnwys y canlynol:

- Yng Nghaerdydd a'r De-ddwyrain Cymru, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a oedd o blaid y newidiadau arfaethedig i roi organau o 47% yn 2012 i 67% yn 2013. Yn 20%, dyma'r cynnydd mwyaf ledled pob rhanbarth yng Nghymru.
- Yn y Cymoedd, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr o blaid y newidiadau arfaethedig i roi organau o 46% yn 2012 i 62% yn 2013. Yn 16%, dyma'r cynnydd mwyaf ond un ledled pob rhanbarth yng Nghymru.
- Yn 2012, yng Ngogledd Cymru y gwelwyd y gyfran uchaf o ymatebwyr o blaid y system newydd o roi organau ledled holl ranbarthau Cymru, sef 57%. Roedd cynnydd o 8% yn y ffigur hwn, sef 65% o blaid yn 2013.
- Cynyddodd cyfran yr ymatebwyr o blaid y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru o 52% yn 2012 i 56% yn 2013.

- Cynyddodd cyfran yr ymatebwyr o blaid y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr o 42% yn 2012 i 51% yn 2013.

Fe allwch weld yr ymchwil yn llawn [yma](#).

RHYBUDD YNGHYLCH BENTHYCIADAU DIWRNOD CYFLOG

Mae Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi Cymru, Jeff Cuthbert, wedi ymuno ag Archesgob Cymru, Barry Morgan, i rybuddio ynghylch traweffaith benthyciadau diwrnod cyflog yng Nghymru.

Mae'r Gweinidog a'r Archesgob yn rhannu'r un pryder bod y cynnydd sydd yn nifer y benthyciadau diwrnod cyflog yn cael effaith andwyol ar gymunedau ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cymorth sy'n cael ei roi i undebau credyd, gan fod undebau credyd yn cynnig opsiwn gwahanol i bobl a fyddai fel arall yn troi at gwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog sy'n codi crocbris ar eu cwsmeriaid. Targed Gweinidogion Cymru yw ceisio sicrhau bod chwech y cant o'r boblogaeth yn defnyddio eu gwasanaethau erbyn 2020, a bydd twf parhaus yr undebau credyd yn rhan o'u trafodaethau.

Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai £1.9 miliwn yn cael ei roi er mwyn cynyddu nifer eu haelodau. Bydd yr arian hefyd yn helpu'r sefydliadau i ddatblygu'r gwasanaethau a'r cynnyrch y maen nhw'n eu darparu ar gyfer cwsmeriaid, fel bod undebau credyd yn datblygu'n ffynhonnell fwy gweladwy a chyffredin o wasanaethau ariannol fforddiadwy, a fydd ar gael yn ehangach.

Fe allwch chi ddod i wybod mwy am gymorth Llywodraeth Cymru i Undebau Credyd [yma](#).

CROESAWU PWERAU ARIANNOL NEWYDD

Mae Gweinidog Cyllid Cymru, Jane Hutt, wedi croesawu ymateb llawn Llywodraeth y D.U. i adroddiad cyntaf Comisiwn Silk – ymateb sy'n cadarnhau y bydd yn datganoli pwerau ariannol newydd i Gymru er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i hybu economi'r wlad.

Yn dilyn cyhoeddiad cychwynnol ar 1 Tachwedd, mae Llywodraeth y D.U. bellach wedi cyhoeddi ei hymateb llawn i bob un o'r 33 argymhelliad a wnaeth Comisiwn Silk ynghylch cryfhau atebolrwydd ariannol Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r ymateb yn cadarnhau y bydd refferendwm yn cael ei gynnal cyn unrhyw gamau i ddatganoli treth incwm. Trwy gydol y broses hon, blaenoriaeth Llywodraeth Cymru fu sicrhau mai pobl Cymru fyddai'n cael y gair olaf.

Mae'r diwygiadau'n golygu y bydd modd i Lywodraeth Cymru fenthycu arian i'w fuddsoddi mewn prosiectau rhwydweithiau mewnol newydd ledled Cymru, a fydd yn creu swyddi ac yn hybu'r economi. Mae hyn yn cynnwys cyfle cynnar i fenthycu er mwyn helpu i ariannu gwelliannau i'r M4, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd.

Ymysg y diwygiadau pellach mae:

- Datganoli Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Tirlenwi: fe fydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i'w diwygio er mwyn eu gwneud yn decach, yn symlach ac yn fwy effeithlon. Fe fydd datganoli Treth Dir y Dreth Stamp yn caniatáu i Llywodraeth Cymru roi cymorth pellach i'r farchnad dai yng Nghymru;
- Datganoli yn llawn i Gymru y Trethi Annomestig: mae hwn yn fantais economaidd bwysig a fydd bellach yn llwyr dan reolaeth Cymru. Fe fydd hyn yn caniatáu i Llywodraeth Cymru roi hwb pellach i economi Cymru.
- Rhoi'r pŵer i'r Cynulliad ddeddfu, gyda chytundeb Llywodraeth y D.U., i gyflwyno trethi newydd a chredydau treth cysylltiedig, gan gynnig llwybr newydd i ddatblygu polisïau yn yr hir-dymor.

Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflwyno achos cryf o blaid datganoli i Gymru y Dreth Teithwyr Awyr ar gyfer Teithiau Hir.

LANSIO YMGYRCH ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG

Mae'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, wedi lansio ymgyrch i roi gwybodaeth ac i godi ymwybyddiaeth am addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog, *Byw yng Nghymru: Dysgu yn Gymraeg?*

Lansiodd y Prif Weinidog yr ymgyrch yn Ysgol Gymraeg Trelyn, Coed-duon, lle bu'n cwrdd â rhieni ac yn darllen stori Gymraeg i blant yn y dosbarth derbyn.

Fe fydd yr ymgyrch tair blynedd yn targedu rhieni sydd ar fin cael plentyn a rhieni sydd â phlant 0-3 oed, gan gynnig gwybodaeth a chynghor iddyn nhw fel y bydd ganddyn nhw'r holl wybodaeth pan fyddan nhw'n penderfynu a ydyn nhw am anfon eu plentyn i ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol ddwyieithog ai peidio. Nod yr ymgyrch yw chwalu rhai o'r rhagdybiaethau am addysg cyfrwng Cymraeg.

ESTYNIAD I RAGLEN CYMUNEDAU YN GYNTAF

Cyhoeddodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Jeff Cuthbert, ei fod yn ymestyn cyfnod y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf er mwyn parhau i helpu ardaloedd difreintiedig tan o leiaf fis Mai 2016.

Dyweddodd y Gweinidog ei fod wedi ymrwmo i ddyfodol Cymunedau yn Gyntaf, sydd wedi cael cyllid gwerth £75m er mwyn cefnogi 52 clwstwr ledled Cymru i ymladd tlodi a hyrwyddo addysg, iechyd a ffyniant economaidd.

Ail-lansiwyd y cynllun y llynedd, a oedd o fis Ebrill 2012 hyd fis Mawrth 2015 yn wreiddiol. Fe fydd y rhaglen yn awr yn parhau trwy gydol cyfnod y Llywodraeth bresennol.

Bydd dyfodol cyllid ar gyfer clystyrau unigol yn ystyried dyraniadau cyllideb y dyfodol a gwerthusiad o Gymunedau yn Gyntaf.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach am Cymunedau yn Gyntaf [yma](#).

CYHOEDDI MWY O WYBODAETH AM WASANAETHAU IECHYD LLEOL AR-LEIN

Fe fydd data newydd ar gael yn hawdd ynghylch sut mae gwasanaethau iechyd lleol ledled Cymru yn perfformio.

Lansiwyd y wefan *mylocalhealthservice.wales.gov.uk* ym mis Medi gan Lywodraeth Cymru er mwyn darparu data ar berfformiad ystod o wasanaethau iechyd. Bellach mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am:

- Berfformiad practisau meddygon teulu o ran eu gofal am gleifion sy'n dioddef o asthma, diabetes, dementia, ffibriliad atrïaidd, clefyd coronaidd y galon a strôc.
- Oriau agor practisau meddygon teulu ac amseroedd apwyntiadau ar lefel Bwrdd Iechyd, gan gynnwys apwyntiadau sy'n cael eu cynnig cyn 8.30am ac apwyntiadau sydd ar gael gyda'r nos.
- Data marwolaethau ar lefel ysbyty cyffredinol dosbarth.
- Rhyngwyneb sy'n haws ei ddeall a'i ddefnyddio er mwyn cael gwybodaeth.

Mae'r wefan eisoes yn cynnwys data am ystod o fesurau ansawdd gofal iechyd ar gyfer byrddau iechyd, a bydd yn parhau i gael ei datblygu gyda data newydd yn cael eu llwytho'n fisol.

Fe allwch chi ddod i wybod mwy ar y wefan *www.mylocalhealthservice.wales.gov.uk*

CYHOEDDI AELODAETH BWRDD DATBLYGU ARWEINYDDIAETH CENEDLAETHOL

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, wedi cyhoeddi aelodaeth Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol newydd Llywodraeth Cymru.

Wedi ei gymeradwyo gan Robert Hill yn ei Adolygiad ar ddarparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol, mae'r Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol yn cynnwys swyddogion addysg proffesiynol annibynnol a fydd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth datblygu

arweinyddiaeth o ansawdd uchel i ategu agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella ysgolion.

Mae gan bob un o aelodau newydd y bwrdd, a gafodd eu dewis yn dilyn proses recriwtio agored, ystod eang o arbenigedd a phrofiad o ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth o fewn y system ysgolion. Fe fyddan nhw'n darparu cyngor ac yn sicrhau bod mentrau Llywodraeth Cymru, sy'n ymwneud â datblygu arweinyddiaeth, yn addas at eu diben ac yn diwallu anghenion y proffesiwn yng Nghymru.

Mae'r bwrdd yn cynnwys yr aelodau canlynol:

Alun Llwyd - Pennaeth Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda.

Andi Morgan – Prif Arweinydd y System ar gyfer Hub Sir Gaerfyrddin/Sir Benfro.

Angela Satterly – Pennaeth Ysgol Gynradd Gatholig St Albans, Caerdydd.

Claire Armitstead – Pennaeth Ysgol Uwchradd y Rhyl

Sir David Carter – Prif Swyddog Gweithredol Cabot Learning Federation, Bryste.

Diane Chisholm – Pennaeth Ysgol Gynradd Southdown, Bwcle, Sir y Fflint.

Gareth Coombes – Arweinydd System, Consortiwm Canolbarth y De, ac Ymgynghorydd Addysg.

Ian Budd – Cyfarwyddwr Strategol a Phrif Swyddog Addysg Cyngor Sir y Fflint/ Cadeirydd CCAC.

Ian Elliott – Prifathro Ysgol Arbennig a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod, Caerffili.

J. Aeron Rees – Pennaeth yr ysgolion ffederal, Ysgol Gynradd Pontsiân ac Ysgol Dyffryn Teifi, Llandysul.

Jeff Beecher – Pennaeth Ysgol Gynradd Glan Usk, Casnewydd.

Judith Pryce – Pennaeth Ysgol Uwchradd y Drenewydd.

Owain ap Dafydd - Pennaeth Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Rhys Howard Hughes - Pennaeth Ysgol Cae Top, Bangor.

Sue Walker – Pennaeth Cyflawniad ar gyfer y sector cynradd yn Rhondda Cynon Taf.

Statws sylwedydd - Claire Morgan, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Estyn.

HWB I WASANAETHAU CYNNIG CYNGOR AR ARIAN A THAI

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn darparu £2.4 miliwn ar gyfer cynnig gwasanaethau newydd a fydd yn cynghori trigolion cymunedau tlotaf Cymru ynghylch materion fel dyledion, rheoli arian a thai.

Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni, a newidiadau Llywodraeth y D.U. i'r system les, wedi achosi cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau cynghori. Bydd y pecyn newydd hwn o gyllid yn caniatáu i Gyngor ar Bopeth Cymru ddarparu gwasanaethau cynghori uniongyrchol mewn 36 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ledled y wlad er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol hwn.

Rhaglen flaenllaw gan Lywodraeth Cymru yw Cymunedau yn Gyntaf sy'n helpu pobl sy'n byw mewn cymunedau sydd ymysg y 10 y cant o'r rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ei nod yw gwella iechyd a ffyniant a'i gwneud hi'n haws i bobl elwa ar addysg a chyfleoedd dysgu.

Mae ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu fod lleoliad gwasanaethau cynghori yn gallu cael cryn effaith ar ddefnydd pobl ohonyn nhw. Gall costau teithio, pryderon ynghylch stigma posibl a diffyg ymwybyddiaeth rwystro pobl rhag troi atyn y gwasanaethau cynghori am help.

Golyga'r cyllid hwn fod modd datblygu gwasanaethau cynghori a sicrhau eu bod ar gael o fewn y cymunedau lle y mae'r angen mwyaf amdanyn nhw. Mae ymchwil yn dangos hefyd fod pobl ar incwm isel yn hoffi derbyn cyngor wyneb yn wyneb. Fe fydd y cyllid newydd hwn yn ei gwneud hi'n bosibl i greu gwasanaethau allgymorth newydd a fydd yn ceisio cyrraedd y grwpiau hyn. Amcangyfrifir y bydd dros 19,000 o unigolion yn elwa ar y gwasanaeth newydd

Mae'r camau hyn i ehangu gwasanaethau cynghori yn rhan allweddol o Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi, sy'n targedu adnoddau er mwyn atal tlodi a'r effaith y mae tlodi'n ei gael ar fywydau pobl.

GERAINT HOPKINS

SWYDDOG POLISI

CYTŪN – EGLWYSI YNGHYD YNG NGHYMRU

029 2046 4378

geraint@cytun.org.uk